

## Bywydau Niferus Mrs Mackworth

Caerllion a Chasnewydd, Prifysgol y De. 17 Chwefror 2014.

Angela V. John.

Dychmygwch ei bod yn ddiwrnod braf o haf yng Nghaerllion ryw ganrif yn ôl. Maent yn gosod y garreg sylfaen i Goleg Hyfforddi Sir Fynwy ar gyfer darpar athrawon o ddynion a fyddai, yn y pen draw, yn rhan o Brifysgol y De.

Prynhawn dydd Iau 18 Gorffennaf 1912 ydyw ac mae'r fraint o osod y garreg yn mynd i'r Ysgrifennydd Cartref, Reginald McKenna, sydd hefyd yn Aelod Seneddol dros Ogledd Sir Fynwy. Mae'n cyrraedd awr yn gynnar. Y tu allan i'r gathiau mae swffragetiaid yn gwerthu eu papur, 'Votes for Women'. Ychydig iawn o amynedd sydd gan Reginald McKenna gyda'r menywod crac hyn sydd am droi'r gyfraith i'w melin eu hunain. Mae'r menywod yn protestio'n benodol yn erbyn bwydo'n orfodol eu cydymgyrchwyr yn y carchar. Yn y gorffennol y credai Reginald McKenna mewn rhoi'r bleidlais i fenywod tan ychydig o flynyddoedd yn ôl pan fachodd y menywod milwriaethus yn y mudiad bob sylw yn y wasg. Mae'n gwybod ei fod yn darged ond, yn wahanol i weinidogion eraill y Cabinet, nid yw'n trafferthu cael yr heddlu i'w warchod. Yn ffodus ymddengys fod y menywod a'r dynion sydd wedi dod ynghyd yno'n ddigon cefnogol i'w bresenoldeb. Mae'r seremoni yn mynd rhagddi.

Ond yn sydyn mae menyw mewn ffrog binc lachar yn y rhes flaen yn rhuthro ato a chydio yn lapel ei siaced. Mae'n gweiddi bod y swffragetiaid yn gwrthwynebu'r driniaeth annynol a gaiff y menywod yn y carchar a'r ffordd mae'r llywodraeth ryddfrydol yn

estyn y bleidlais i ragor o ddynion ond nid i fenywod. Ar unwaith mae Henadur Parry a phwysigion eraill ar y llwyfan yn gafael ynnddi a'i thafu i lawr y grisiau. Cwta hanner munud y mae'r cyfan yn parhau.

Ond caiff sylw yn y wasg drwy Brydain gyfan ac mae'r stori'n cynyddu wrth gael ei hailadrodd. Yn ôl y wasg Lundeinig, ysgwyd yr Ysgrifennydd Cartref yn arw a wnaeth y Fenyw Binc ar ôl cripan yn llechwraidd ato o'r tu cefn a gafael yn dynn yn ei siaced.

Ymhlith gwesteion y diwrnod hwnnw oedd Mrs Mackworth. Roedd Margaret Mackworth yn briod â'r Capten Humphrey Mackworth, Meistr y Cŵn a mab y Cynol Syr Arthur William Mackworth a'r Foneddiges Mackworth. Roedd ei theulu-yng-nghyfraith yn byw'n lleol mewn adeilad sydd erbyn heddiw yn Westy'r Priordy. Roedd Syr Arthur wedi anfon ei ymddiheuriadau am na allai ddod i'r seremoni ond roedd Margaret wedi'i gwneud yn siŵr ei bod yno. Roedd yn unig blentyn i Sybil Haig a D.A. Thomas, y diwydiannwr cyfoethog iawn, ac roedd Margaret wedi'i magu ym Mharc Llan-wern ger Casnewydd ac erbyn hyn mae'n byw mewn tŷ newydd a dymunol o'r enw Oaklands yn Llanhenwg a oedd yn anrheg priodas oddi wrth ei rhieni.

Ond nid oedd Margaret yn bleidiol iawn i'r Ysgrifennydd Cartref er gwaethaf y ffaith iddi fod yn ferch Ryddfrydwr mawr o Gymru. Am y pedair blynedd diwethaf bu'n swffragét o argyhoeddiad a dechreuodd fod felly ers ychydig o wythnosau cyn ei phriodas. Roedd un o gyfnitheroedd swffragetaidd ei mam yn gwella ar ôl bod yn sâl yn Llan-wern yn sgil cael ei charcharu yn Holloway. Roedd y profiad hwn wedi sbarduno

Margaret i fynd i wrthdystiad mawr ym Mharc Hyde yn Llundain a drefnwyd gan swffragetiaid Mrs Pankhurst. Ac o hynny ymlaen nid oedd dim troi'n ôl ar gyfer Margaret a chyn hir roedd wedi mynd yn ysgrifenyddes Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Menywod yng Nghasnewydd.

Dyma oedd digwyddiadau cynnar yr Undeb yng Nghasnewydd: yng ngwanwyn 1909 croesawyd menywod i gartref agored; cafwyd cyfarfod yng Ngwesty'r Safoi yn yr haf ac yn yr hydref cyfarfod yn Neuadd Ddrilio Caerllion pan ddaeth 300 ynghyd. Ac ym mhob un roedd Margaret yno, yn aelod ffyddlon, gyda menywod eraill megis Olive Fontaine, Edith Pilliner, Margaret Finlay, Bessie Davies a'r Poweliaid - yn deulu cyfan. Dyma oedd trefnwyr cyflogedig yr ardal: Annie Kenney, Vera Wentworth, Gabrielle Jeffrey ac roedd y Gymraes Gymraeg, Rachel Barrett, wedi chwarae rôl allweddol yno hefyd. Cafodd Margaret lawer o gymorth gan ei mam, Sybil, a hithau'n llywyddes, a chefnogaeth gan chwaer Sybil, Charlotte Haig - Anti Loti - a gerddodd strydoedd Casnewydd â phlacardiau'n hongian o'i gwddf yn hysbysebu'r cyfarfod nesaf. Roedd Margaret hefyd wedi gwerthu copïau o'r papur, 'Votes for Women', ac wedi cynorthwyo wrth redeg siop swffragetiaid Casnewydd ar Stow Hill ac wedyn yn Siambrau'r Western Mail ar y Stryd Fawr. Miss Brown a wnaeth faner y gangen gyda'r geiriad: 'How beggarly appear arguments before a defiant deed'. Roedd Margaret yn ysgrifenyddes yr Undeb yng Nghasnewydd am holl oes y gangen sef tan ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf pan gafodd ei diddymu.

Ar y diwrnod hafaidd hwnnw yng Nghaerllion, roedd Mrs Mackworth yn ymddangos yn ddigon parchus ond roedd yr ymosodwraig yn gwisgo ffrog binc orau Margaret ynghyd â het binc Margaret i gyd-fynd â'r ffrog. Ni welai Margaret ei het byth eto. Actores ifanc o Lundain oedd y weithredwraig ac roedd Margaret wedi trefnu iddi ddod yng nghwmni dyn lleol, cefnogol i'r achos. Roedd yr actores wedi gwisgo'n drwsiadus y tu hwnt a phwysai'n llipa o weddus ar fraich y dyn.

Ychydig dros fis yn ddiweddarach, ysgrifennodd Margaret at y *Western Mail* i brotestio am sut yr oedd y papurau wedi trafod y digwyddiad. Mynnodd Margaret mai menyw fach, dila oedd y swffragét ac y câi'r anhawster mwyaf wrth 'ysgwyd' Reginald McKenna. Honnodd Margaret fod y fenyw druan yn ei gwely o hyd ar ôl y straen ar ei chalon o ganlyniad i'r modd y daliwyd hi gan y dynion yno. Bachodd Margaret ar y cyfle i ymosod ar y ffordd yr oedd y llywodraeth yn osgoi ac oedi rhoi'r bleidlais i fenywod ac ar ymddygiad y Rhyddfrydwyr a Reginald McKenna yn eu plith.

Ac nid dyma'r unig dro yr oedd Reginald McKenna wedi wynebu swffragetaid gelyniaethus yng Nghymru ac yn Lloegr. Ac nid dyma'r yr unig dro, ychwaith, i Goleg Hyfforddi Caerllion ymdeimlo â phresenoldeb y swffragetaid. Tua diwedd y flwyddyn roedd yr adeilad newydd bron wedi'i orffen ond digwyddodd tân. Yn ystafell y ffôn y canfuwyd gwllân cotwm wedi'i drwytho ag alcohol er i rywun weld a diffodd y tân yn fuan ac ychydig iawn o niwed a wnaed. Ni ddaethpwyd o hyd i'r drwgweithredwr/wraig ond credid i'r carn, yn y blynyddoedd hyn o wrthdystio cyson, mai swffragét oedd yn gyfrifol.

Yn y cyfamser parhâi Mrs Mackworth i fyw bywyd breintiedig boneddiges yn y wlad ond gwnâi fwy a mwy o waith dros yr achos. Nid oedd yn chwarae ffon ddwybig mewn gwirionedd, am ei bod mor huawdl yn gyhoeddus am yr angen i fenywod gael y bleidlais. Nid oedd ychwaith yn gwrthryfela yn erbyn ei rhieni Fictorianaid - megis sawl un arall - am fod ei mam yn cadeirio cynifer o'r cyfarfodydd a'u hannerch ac ariannu nifer o ddigwyddiadau dros yr achos. Yn wir ym 1914 y cafodd ei harestio yn Llundain am fod yn rhan o ymgynulliad anghyfreithlon yn San Steffan. Ac o ran ei thad, er na chytunodd â bod yn filwriaethus, aeth yn is-lywydd Cynghrair Cenedlaethol y Dynion dros Roi'r Bleidlais i Fenywod ac ymfalchïai yn naliadau ei wraig a'i ferch. Arhosodd nifer o swffragetiaid enwog gan gynnwys Mrs Pankhurst (a draddododd sawl anerchiad yng Nghasnewydd ym 1910) yn Llan-wern.

Yn y blynyddoedd 1912-13 cynyddodd ochr filwriaethus y mudiad. Cafodd Olive Fontaine, a oedd am gyfnod byr yn gydysgrifenyddes Undeb Casnewydd gyda Margaret, ei charcharu yn Llundain am fis gyda llafur caled ar ôl iddi falu ffenestri. Pan gafodd ei rhyddhau, meddai wrth Undeb Casnewydd ei bod yn 'falch i gefnu ar Holloway, ond yn fwy balch imi fynd yn y lle cyntaf'.

Cyn hynny roedd Margaret wedi addo i Humphrey na châi ei charcharu. Ond erbyn 1913 roedd yr hinsawdd wleidyddol wedi newid. Ymresymodd Margaret mai cael ei charcharu oedd bwrddwn ei haddewid ac nid peidio â thorri'r gyfraith ac roedd yn bosibl, serch

hynny, na chât ei dal. Erbyn haf 1913 blychau post oedd prif dargedau'r ymgyrch, yn bennaf am eu bod yn tynnu sylw heb beryglu bywyd. Penderfynodd Margaret weithredu.

Teithiodd i bencadlys yr Undeb yn Llundain i gasglu ei hoffer. Gweithiai swffragetiaid gyda fferyllyddion cydymdeimladol wrth ddyfeisio cymysgeddau ymfflamychol.

Teithiodd adref ar drên llawn yn y trydydd dosbarth a chafodd foment o banig pan bwysodd menyw ar y fasged lle roedd y deunydd ymfflamychol. Wedyn claddodd ei deuddeg tiwb llawn cemegau dan y llwyni cwrans duon yn Oaklands.

Yn ei hunangofiant mae'n awgrymu nad oedd y swffragetiaid eraill yn fodlon ei chynorthwyo, felly gweithredodd ar ei phan ei hun. Anodd gwybod ai gwir ynteu gau oedd yr esboniad am ei bod yn bosibl mai eu hamddiffyn rhag bod ynghlwm wrth y weithred oedd ei chymhelliant. Mae'n bosibl, ar y llaw arall, mae cynyddu arwresiaeth ei gweithredoedd ei hun ar gyfer stori ei bywyd yr oedd Margaret. Yn wir nid yw'r hunangofiant, *This Was My World*, (na chafodd ei ysgrifennu tan yn gynnar yn y 1930au) yn crybwyll y menywod y soniais amdanynt gynt a'r gweithgareddau torfol a oedd yn gymaint o ran ganolog o'r mudiad. Mae'r wybodaeth am gefnogwyr eraill yng Nghasnewydd, gan gynnwys sawl gweinidog cydymdeimladol, ac am gangen Pont-y-pŵl a Griffithstown, dim ond yn dod i'r fei o ffynonellau eraill megis erthyglau papurau newydd am gyfarfodydd lleol.

Er bod Margaret yn y sefyllfa hynod ffodus o feddu ar gar, defnyddiodd gludiant cyhoeddus ar 25 Mehefin 1913. Teithiodd i Heol Rhisga, Casnewydd. Cofiodd i'w

chalon guro megis gordd a'i llwnc deimlo cyn syched â thywod y Sahara. Yn y diwedd magodd ddigon o blwc i dynnu'r cyrc o'r tiwbiau ac, mewn amlen fawr, eu postio i flwch post yn wal y fynwent gyda cherdyn post.

Roedd dwy chwaer a oedd yn byw gyferbyn â'r fynwent wedi sylwi arni'n cerdded yn nerfus dro ar ôl tro heibio i'r blwch post. A hithau'n dod o deulu mor amlwg a chefnog, roedd Margaret yn adnabyddus hyd yn oed cyn iddi gael enw i'w hun yn swffragét. Yn fuan gwelwyd mwg yn codi o'r blwch post. Cafodd y tân ei ddiffodd yn gyflym ac achubwyd y llythyrau yno. Y diwrnod wedyn roedd Margaret yn y car ar ei ffordd i barti te ym mhentref Llan-wern. Cafodd ei hatal a'i dal gan yr heddlu a'i chloi mewn cell heddlu ffiaidd am bedair awr cyn i Humphrey gyrraedd a chafodd ei rhyddhau ar ôl i'w gŵr a hithau roi arian y fechniaeth sef £50 yr un.

Ychydig o wythnosau wedyn, aeth ei hachos gerbron y llys. Cafwyd Margaret yn euog a chafodd ddirwy o £10. Gwrthododd dalu hon na chael eraill i dalu drosti. Cafodd ei dedfrydu i fis yng ngharchar y sir ym Mrynbuga ac yn ddisymwth aeth ar streic newyn. Erbyn chweched diwrnod ei hympryd roedd mor wan â chath ac ofnai'r awdurdodau ganlyniad ei chadw felly. Yn ôl yr arfer gyda'r swffragetiaid ar y pryd, cafodd ei rhyddhau dan y ddeddf a elwid yn Ddeddf y Gath a'r Llygoden, darn diweddar o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan neb llai na Reginald McKenna. Nod y ddeddf oedd osgoi creu merthyron drwy ganiatáu rhyddhau ar drwydded garcharorion sâl iddynt wella ac wedyn cael eu harestio eto heb orfod mynd gerbron llys eilwaith. Roedd Margaret i

ddychwelyd i'r carchar wyth diwrnod yn ddiweddarach. Darn rwygodd ei thrwydded gerbron ei gwarchodwyr ac i ffwrdd â hi, yn wan, isel ei hysbryd ac wedi'i hysigo.

Ar y diwrnod ar ôl i'w thrwydded ddod i ben, talwyd ei dirwy gan rywun anhysbys. Nid oedd Margaret wedi rhoi ei bendith ar hyn. Efallai mai ei thad a dalodd neu'n debycach ei gŵr ond o bosibl mai Reginald McKenna a'i trefnodd. Roedd llawer o gyhoeddusrwydd wedi digwydd yn ddiweddar am garcharorion uchel eu proffil yn cael eu cam-drin ac erbyn yr adeg honno roedd ffordd yr awdurdodau o'u trin ychydig yn fwy gofalus i osgoi rhagor o embaras gwleidyddol. Ar y cyfan cafodd Margaret well triniaeth na llawer ac nid Holloway roedd Brynbuga ychwaith. Yn wir dywedodd rhai mai braint oedd wedi ennill y dydd eto. Wedi dweud hynny, nid yw pum diwrnod a phum noson o streic newyn yn beth hawdd i neb.

Y diwrnod ar ôl i Margaret ddechrau ei dedfryd, datganodd swffragetiaid cymedrol Casnewydd ac aelodau o Undeb Cenedlaethol Cymdeithasau Ennill y Bleidlais i Fenywod y canlynol: 'Nid ystyr ennill y bleidlais i fenywod yw difetha eiddo pobl eraill'. Ac yma y dylwn ddweud bod y rhan fwyaf o gefnogwyr rhoi'r bleidlais i fenywod yng Nghymru yn erbyn torri'r gyfraith gan ddilyn arweiniad Mrs Fawcett a chadw at y llwybr cyfansoddiadol gyda'i dadleuon rhesymol a'i pherswadio cymodlon yn hytrach na'r tactegau mwy ymfflamychol rhai o'r swffragetiaid.

Ar y llaw arall, canmol gweithred Margaret a wnaeth aelodau o Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Menywod yng Nghasnewydd. Roedd Margaret yn parhau i redeg y



gangen a oedd yn un ymhlith y mwyaf gweithgar yng Nghymru. Fel sy'n amlwg o'i hadroddiadau i'r papur cenedlaethol, *Suffragette*, cynhaliodd y gangen eu 'cartrefi agored' wythnosol, nifer helaeth o gyfarfodydd cyhoeddus, gwerthiannau adeg y Nadolig a llawer iawn o ddigwyddiadau eraill. Roedd mynd mawr ar Margaret yn areithydd ar draws yr holl ardal. Yn Ebrill 1914 derbyniodd Esgob Llandaf ddirprwyaeth o ugain o swffragetiaid o ardal yr hen Went a brotestiai yn erbyn Deddf y Gath a'r Llygoden. Yn eu plith roedd Margaret a oedd wedi dod, ar adeg farw ei thad-yng-nghyfraith, yn Foneddiges Mackworth. Taranodd yn erbyn bwydo gorfodol gan ei ddisgrifio'n drais corfforol. Y mis nesaf yn Nhŷ'r Arglwyddi pan drafodwyd rhoi'r bleidlais i fenywod, pleidleisiodd yr Esgob o blaid ei rhoi.

Ond nid y bleidlais i fenywod oedd unig dant yn nhelyn Mrs – wedyn y Foneddiges – Mackworth. Yn wir roedd gymaint ohonynt ag yr oedd o enwau ar Margaret. Yn ystod ei bywyd hir – cyrhaeddodd oed llawn yr addewid a phum mlynedd ar ben hwnnw – gelwid Margaret yn sawl enw, bu'n byw mewn sawl lle a chyflawniad sawl camp. Mewn ffordd bu'n byw nifer o fywydau gwahanol. Hoffwn dreulio weddill yr amser sydd gennym yn traethu am y gwahanol fywydau hyn. Byddaf yn ystyried yn fyr ei chyfnod yn weinyddwraig ryfel, yn fenyw fusnes, yn ymgyrchwraig dros hawliau cyfartal, yn newyddiadurwraig ac yn olygwraig.

Mae'n wir i Margaret herio'r drefn yn y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf ond trodd y brotestwraig yn gefnogwraig frwd i Brydain gyda dyfodiad y rhyfel hwnnw yn haf 1914. Am barhad y rhyfel rhoes y gorau i'w phrotestio ac ymroes i waith rhyfel. Ym

1917-18 roedd ganddi swyddi gweinyddol pwysig. Ond cyn iddi ymgymryd â'r swyddi hyn, roedd y rhyfel wedi tarfu arni mewn ffordd drawiadol a digon ysgytwol. Roedd yn gweithio i'w thad ac ym 1915 digwyddodd y peth mwyaf dychrynlyd i'r ddau ohonynt wrth iddynt deithio'n ôl i Brydain o'r Amerig wedi taith fusnes yno. Trefnasant deithio ar y llong anffodus honno, y *Liwsitania*. Suddodd oddi ar arfordir Iwerddon pan gafodd ei tharo gan dorpido a bu bron i Margaret a'i thad foddi yn y dyfroedd. Mae'r hanes yn ddigon erchyll ond serch hynny nid ymataliodd Margaret rhag mynd ar fordeithiau na nofio – i'r gwrthwyneb – ac er gwaethaf ychydig o sgil effeithiau parhaodd y Foneddiges Mackworth i weithio yn yr un fath.

Ym 1917 aeth yn Gomisiynwraig Gwasanaeth Cenedlaethol y Menywod yng Nghymru gyda swyddfa yn Llysoedd y Gyfraith yng Nghaerdydd. Ond yn aml teithiodd i gyfarfodydd ar hyd a lled Cymru. Recriwtiodd fenywod i weithio ar y tir ac yng Nghorfflu Cynorthwyol Byddin y Merched a oedd newydd ei sefydlu. Hefyd ysgrifennodd erthyglau mewn papurau newydd i gefnogi Prydain ac annog menywod i wirfoddoli i weithio yn y Corfflu yn Ffrainc mewn ystod o swyddi gwahanol: ysgrifenyddesau, swyddogesau negesau meddygol, gyrwagedd. Y flwyddyn ganlynol aeth yn Brif Reolwraig recriwtio menywod yng Ngweinyddiaeth y Gwasanaeth Cenedlaethol yn Llundain. Yn ei swydd bu'n cynnal trafodaethau cymhleth â Gweinyddiaeth Lafur a nifer o sefydliadau i fenywod. Roedd Margaret hefyd wedi chwarae rhan wrth i'r rhyfel droi'n heddwech gan gymryd ei lle ar Bwyllgor Ymgynghorol y Menywod i'r Weinyddiaeth Adnewyddu ac cynorthwyo yn y broses o ailwampio'r gwasanaeth iechyd.

Ym 1918 dechreuodd Margaret fywyd newydd mewn sawl ffordd. Yn y flwyddyn honno bu farw yn gynamserol ei thad yr oedd mor hoff ohono. Aethai'r D.A. Thomas yn Rheolwr Bwyd – ef a gyflwynodd ddogni i Brydain – ac roedd yr holl waith wedi dweud ar ei iechyd. Cymynroes i Margaret (gyda chaniatâd arbennig y brenin) y teitl a gafodd am ei waith clodwiw. Felly trodd Margaret yn Ail Is-iarlles y Rhondda. Erbyn hyn roedd yn byw yn Chelsea ac ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach yr ysgarai â'i gŵr.

Etifeddodd Margaret holl ddiwydiannau ei thad. Ond nid oedd diwydiant yn newyddbeth iddi. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o fenywod priod, roedd Margaret wedi bod yn dysgu ei chreffft yn y busnes ers blynyddoedd. Syniad ei mam oedd gwneud Margaret yn gynorthwydd personol ei thad, D.A. Thomas. Teithiodd Margaret bob dydd i Adeiladau'r Cambria yn Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd. Yr unig ddwy fenyw arall yn y pencadlys oedd y ddwy a weithiai ar ddesg y ffonau. Roedd Margaret yn mynd i gyfarfodydd ac iddi hi roedd y trafodaethau busnes yno'n llawer mwy pleserus na sgysiau hirwyntog ac amherthnasol y parlwr. Ffeiliodd ddogfennau cyfrinachol a drafftiodd lythyrau a memoranda. Pan âi ei thad ar ei deithiau busnes hir, Margaret oedd yn rheoli ei faterion personol a bu'n gweithredu'n fath ar swyddog cyswllt i'w fusnes. Cafodd gyflog hael iawn. Enillai fil o bunnoedd y flwyddyn - hi oedd un o fenywod uchaf ei chyflog ym Mhrydain. Hyd yn oed mor gynnar â 1917 cafwyd disgrifiad ohoni mewn cylchgrawn megis y fenyw fusnes fwyaf adnabyddus a medrus yn y wlad. Felly roedd ei grym yn sgil marw ei thad yn ychwanegiad at ei sail gadarn yn y byd hwnnw.

Dyweddodd Undeb Cenedlaethol y Clerciaid ei bod lawer yn well i nifer mawr o gyfarwyddwyr.

Erbyn hyn yn y cyfnod ôl-ryfel roedd Margaret yn rheoli pyllau glo, llongau, yswiriant, papurau newydd, cwmnïau argraffu a rhagor, ac yn eu plith fentrau agos i'w hen gartref (megis melinau rholio John Lysaght Cyf. yng Nghasnewydd) a rhai pell a rhyngwladol (o Firmingham i Frasil). Mor gynnar â 1919, a hithau dim ond ynghanol ei thri degau o hyd, roedd ganddi sedd ar fyrddau 33 o gwmnïau gan gadeirio nifer ohonynt. Rwyf wedi dod o hyd i ddeugain o gwmnïau yr oedd Margaret am ryw gyfnod yn y 1920au yn gyfarwyddwraig iddynt. Eto, mor ddiweddar â 2011, roedd menywod yn cynrychioli cwta 14% o'r cyfarwyddwyr ar fyrddau cwmnïau Prydain.

Felly camp wirioneddol oedd i Margaret gael ei hethol ym 1926 yn llywydd Sefydliad y Cyfarwyddwyr. Arhosodd yn llywydd am ddegawd – sy'n gyfnod hwy nag unrhyw un ymhlith ei rhagflaenwyr o ddynion a, hyd yn hyn, ni chafwyd menyw arall ar ei hôl. Aeth hefyd yn un o'r pum menyw gyntaf i gael eu derbyn yn aelod o Siambr Fusnes Prydain. Yn ôl y *New York Tribune*, hi oedd prif fenyw fusnes yn holl ymerodraeth Prydain ac ym marn y *Daily Herald*, Margaret oedd yn un o'r pum unigolyn mwyaf dylanwadol byd busnes mawr Prydain.

Wrth gwrs roedd llawer wedi newid yn hanner olaf y 1920au gydag effeithiau hir dymor y Streic Gyffredinol a'r cloi allan maith a ddilynodd yng Nghymru yn ogystal â'r lleihad yn y galw am lo wrth i ffynonellau a lleoliadau amgen o ynni gael eu datblygu. Cafodd

goblygiadau byd-eang cwmp Marchnad Stoc America a'r dirwasgiad effaith fawr ar gyfoeth a phroffil busnes Margaret. Er, o'i chymharu â llawer o'i chydoeswyr, arhosodd mewn sefyllfa ddigon cefnog.

Pan fu farw tad Margaret ym 1918 ac aeth yn is-iarlles yn ei rhinwedd ei hun (un o ddim ond dau ddwsin ym Mhrydain) sylweddolodd, er gwaethaf ei grym a'i chyfoeth a'r hawl y cafodd o'r diwedd i bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol, ni allai ymgymryd â'i phriod sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Roedd yn rhaid i bob arglwydd y deyrnas ddeisyfu ar y brenin i gael gwrit gwysiad i'r Senedd. Roedd Margaret wedi mynd drwy'r broses hon a chyfeiriwyd ei hachos i Bwyllgor Breintiau Tŷ'r Arglwyddi. Roedd ei sefyllfa wedi ymddangos yn gryf: erbyn hyn roedd ychydig o fenywod yn aelodau o Dŷ'r Arglwyddi a dadleuodd Margaret a'i chyfreithwyr i'w hawl gael ei hamddiffyn gan Ddeddf (Tynnu) Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1919. Drwy'r ddeddf honno daeth menywod i reithgorau Prydain ac yn gyffredinol galluogodd menywod i ymarfer swyddogaethau cyhoeddus.

Ar y cychwyn ymddangosai'r sefyllfa'n bur addawol. Cafodd ei hachos wrandawriad ym Mawrth 1922 a phenderfynwyd â mwyafrif o saith pleidlais i un i roi'r gwrit gwysiad iddi. Hi fyddai'r fenyw gyntaf i ymgymryd â'i sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi a bu llawer o gyhoeddusrwydd i hyn. Cafwyd sylw mewn papurau newyddion o'r Ariannin i Seilón a rhoes un papur newydd o'r Amerig dudalen a hanner i lwyddiant Margaret. Yn ôl y *Church Times* roedd yn gamp drawiadol ac aeth y papur ymlaen i dybio os cael Archesgobes neu Arglwyddes Ganghellor oedd y cam nesaf.

Ond nid oedd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd, Iarll Penbedw, yn mynd i oddef hyn. Ef oedd Swyddog Llywyddu Tŷ'r Arglwyddi yn ogystal â bod yn ben ar y farnwriaeth ac roedd yn benderfynol o beidio â gweld merched yn tyrru i'r Tŷ. Dadleuodd mai bwriad Deddf 1919 oedd cael gwared ag anghymwysterau a fodolai ac nid rhoi hawliau newydd na fodolai gynt. Gorchmynnodd i'r Pwyllgor gyfarfod eto gyda rhagor o aelodau ac yntau'n gadeirydd. Roedd y Pwyllgor ar ei newydd wedd yn cynnwys pobl elyniaethus i roi'r bleidlais i fenywod megis cyn-arweinydd y gwrthswffragetiaid, yr Arglwydd Curzon. Cafodd Iarll Penbedw ei ffordd a gwrthodwyd cais Margaret.

Roedd Margaret yn gandryll. Nid ei sefyllfa bersonol yn unig a'i poenai, eithr gwyddai o'r gorau am le canolog Tŷ'r Arglwyddi wrth greu deddfwriaeth. Yr unig ffordd i ennill hawliau cyfartal a lle teilwng yn nemocratiaeth Prydain oedd i fenywod allu cymryd eu lle yn y ddau Dŷ. Gwrthododd roi'r gorau i'r frwydr hon a thros y degawdau nesaf ymdrechodd i gyflawni'r nod drwy gyfrwng mesurau preifat a gyflwynid gan ddynion cydymdeimladol. Y mesur a gafodd ei alw'n fesur Arglwyddes y Rhondda ond a gyflwynwyd gan Frank Briant, Aelod Seneddol Rhyddfrydol, a lwyddodd yn ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin gyda mwyafrif mawr iawn ym 1924. Ond yn y clwb i ddynion a elwid yn Dŷ'r Arglwyddi, derbyniad gwahanol iawn a gafodd. Cyflwynwyd mesurau eraill ar yr un pwnc a fethodd bob un a hynny bron yn flynyddol. Roedd y gêm yn boblogaidd ond yr un ochr a enillodd bob tro a thynnodd hynny rywfaint o'r hwyl. Mor ddiweddar â 1957 gallai Iarll Glaschu ddweud am Dŷ'r Arglwyddi: 'dyma'r unig le ym Mhrydain lle gall dynion gyfarfod heb fenywod yn bresennol. Er mwyn dyn, cawn ni gadw'r lle felly'.

Nid tan Ddeddf Arglwyddi Oes 1958 y cafodd menywod fod yn arglwyddesau yn yr un ffordd ag yr oedd dynion yn arglwyddi. Ond ni fu fyw Margaret yn ddigon hir i weld y pedair menyw gyntaf i ymgymryd â'u seddi yno. Cyhoeddwyd eu henwau ar y diwrnod cyn angladd Margaret. A dim ond ym 1963 y cafodd arglwyddesau etifeddol eu hawliau'n llawn. Gelwid Margaret yn 'arglwyddes y ddyfal donc' oherwydd ei deugain mlynedd o ymgyrchu ar y pwnc.

Yng Nghymru mae'r rhelyw'n meddwl am Margaret fel swffragét leol. Ond chwaraeai ran allweddol ym 1926-8 wrth drefnu'r ymgyrch Brydeinig o Lundain a enillodd y bleidlais o'r diwedd i fenywod dan 30 oed. Ac ni chafodd y cyfraniad hwn sylw teilwng. Ym mis Gorffennaf 1926 cadeiriodd y pwyllgor a drefnodd y brotest dorfol olaf yn yr ymgyrch gyda miloedd yn ymgynnull ym Mharc Hyde. I lawer roedd yn atgof o'r dyddiau cyn y Rhyfel Mawr. Anerchwyd y dorf gan Mrs Pankhurst (a oedd newydd ddychwelyd ar ôl cyfnod o fyw yn Ffrainc) a Margaret. Roedd ambell i ddigwyddiad digon annisgwyl gan gynnwys menyw'n hedfan dros eu pennau (mewn awyren). Cymdeithas Casnewydd a'r Cylch o Ddinasyddion o Fenywod oedd un o'r sefydliadau yno. Margaret oedd lywyddes eu cymdeithas dros Brydain.

Dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf cadeiriodd Margaret gyfarfodydd pwyllgor diddiwedd i gadw'r pwysau ar y llywodraeth ac roedd yn un o dri i annerch mewn rali dorfol yn Trafalgar. Hedfanai baneri megis yn yr hen ddyddiau. Ar un o'r cerfluniau o lewod roedd placard yn dwyn y geiriau: 'Gentlemen prefer blonds, but blonds prefer the

vote'. Canodd y dorf ganeuon rhyfelgar a'r geiriau 'We Want Votes' i dôn 'Three Blind Mice'.

Pan agorodd y Brenin y Senedd ym mis Chwefror 1928 - ddeng mlynedd ers i fenywod dros ei deg ar hugain gael y bleidlais - gyrrodd dwsin o geir, un Margaret yn eu plith, o gwmpas yr ardal gan arddangos placardiau yn mynnu cael y bleidlais i fenywod dros eu hun ar hugain oed. Ym mis Gorffennaf pasiwyd, o'r diwedd, Ddeddf Etholfraint Gyfartal. Margaret oedd cadeirydd y Cinio Buddugol. Roedd hefyd yn drysorwraig Cronfa Goffa Mrs Pankhurst am y bu farw Emmeline Pankhurst yr haf hwnnw.

Yn ystod y blynyddoedd hyn roedd Margaret wedi treulio amser, gwario arian a buddsoddi egni ar hyrwyddo hawliau cyfartal i fenywod ym Mhrydain a'r tu hwnt. Sefydlodd Gyngor Diwydiannol y Menywod i amddiffyn hawliau menywod mewn cyflogaeth a chydweithiodd yn agos â ffeminyddion o'r Amerig a Chynghair y Cenedloedd. Un o'i hymdrechion mwyaf llwyddiannus oedd creu sefydliad o'r enw'r Grŵp Chwe Phwynt ym 1921. Roedd yn grŵp pwysau di-blaid â'r nod o roi hawliau cyfreithiol i fenywod i gyd-fynd â'u hawliau gwleidyddol. Megis y Siartwyr ym mlynnyddoedd y 1830au a'r 1840au roedd gan y Grŵp chwe gofyniad. Roedd wedi rhoi bri ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau gan geisio deddfwriaeth i famau â'r nod o amddiffyn plant yn well. Roedd ei ofynion yn syndod o flaengar, er enghraifft, wrth alw am ddeddfau llymach yn erbyn ymosod ar blant ac am amddiffyn gweddwon ifainc gyda phlant a mamau dibriod a'u plant hwythau. Roedd ei dri gofyniad eraill yn ymwneud â hawliau cyfartal i fenywod a dynion gyda gwarcheidwaeth gyfartal i rieni priod, cyflog



cyfartal i athrawon a chyfle cyfartal i weision sifil. Galwai Margaret y grŵp yn un ar gyfer 'gwelliannau cymdeithasol'.

Arweiniai a chadeiriai Margaret y Grŵp a roes bwysau ar y llywodraeth drwy anfon dirprwyaethau at y prif weinidogion a'r aelodau seneddol fel yr âi deddfwriaeth drwy Senedd Llundain. Cynhaliodd y Grŵp gyfarfodydd o bob math - o ddawnsfeydd te a chyngherddau i ralïau anferth. Roedd cyfeilles fynwesol Margaret, Winifred Holtby, a Vera Brittain yn weithgar a chefnogol. Cawsant eu profiadau cyntaf ym myd gwleidyddiaeth drwy annerch y dorf ym Mharc Hyde ar ran y Grŵp. Defnyddiai'r Grŵp ffyrdd eithaf clyfar o enwi a chodi cywilydd ar y rhai adweithiol. Cyhoeddodd Restrau Duon a Rhestrau Gwynion cyn yr etholiadau gan ddatgelu gelynion i'r achos a dathlu'r rhai cefnogol. Roedd Rhestr Lwydaidd ar gyfer y rhai na wireddodd eu haddewidion. Mae'n swnio'n syniad da o hyd!

Cydnabu Margaret mai 'Grym yw cyhoeddusrwydd'. Ac roedd gan y Grŵp y cyfrwng perffaith i roi cyhoeddusrwydd i'w syniadau, sef *Time and Tide*, y papur newydd wythnosol a sefydlodd ac a ariannodd Margaret o 1920 ymlaen ac a olygodd o 1926 ymlaen.

Creadigaeth Margaret ei hun oedd *Time and Tide* a hwn oedd ei hoff fusnes. Ym 1920 sefydlodd gwmmi cyhoeddi Time and Tide Cyfyngedig gyda bwrdd arloesol o fenywod yn unig. Aeth yn yn un o'r papurau wythnosol mwyaf arloesol, dychmyglon a hyblyg a gyhoeddwyd ym Mhrydain erioed. A hyn i gyd mewn cyfnod pan oedd y wasg yn brif

gyfrwng cyfathrebu â'r cyhoedd. Yn nyddiau cynnar y papur, roedd ei newyddiaduraeth a'i safonau uchel yn rhoi llais a hyder i fenywod, yn enwedig i'r rhai a oedd newydd gael y bleidlais. Ond nid oedd y papur erioed wedi bod yn un a gyfeiria i ei sylw'n unig at fenywod. Eithr dynion a menywod deallus a meddylgar oedd cynulleidfa darged y papur. O'r cychwyn yn deg roedd yn bapur di-blaidd a soniodd am lawer i faes. A chyda llaw, talodd lawer o sylw i Gymru, yn fwy nag unrhyw bapur newydd Llundainig arall.

Dechreuodd *Time and Tide* ar ei hynt yn Stryd y Fflyd ond ym 1929 ailddyfeisiodd ei hun ym Mloomsbury. Roedd y symudiad hwn yn adlewyrchu newid, nawr bod y bleidlais wedi'i hennill, tuag at ddod yn bapur newydd trawiadol a blaengar y celfyddydau yn bennaf. Roedd o hyd yn bleidiol i hawliau menywod ond hefyd rhoes sylw i lenyddiaeth orau'r cyfnod. Ysgrifennai cyfaill agos Margaret, George Bernard Shaw, i'r papur a hefyd Virginia Woolf, D.H.Lawrence, Sean O'Casey, Rebecca West, Vera Brittain, Jack Jones a llawer un arall. Ar staff y papur roedd Winifred Holtby ac wedyn John Betjeman ymhlith eraill. Ysgrifennai Margaret y colofnau golygyddol a'r dyddiadur. Cyfrannai hefyd lawer o golofnau o'r enw 'Notes on the Way' a chyhoeddwyd casgliad o rai ohonynt mewn cyfrol ym 1937. Ymddangosai ei hadolygiadau o ddramâu dan y ffugenw, Anne Doubleday.

Roedd symudiad tuag at ymdrin â materion rhyngwladol yn amlwg erbyn y 1940au. Roedd y papur wedi mynd yn sylwebydd o fri ar wleidyddiaeth gartref a thramor. Roedd llawer yn gwerthfawrogi ei gefnogaeth frwd i ryddid barn. Ar ôl yr ail ryfel byd

newidiodd tueddiadau gwleidyddol Margaret – ym maes polisi domestig o leiaf – o’r rhai a ochrai gyda’r chwith i gefnogi’r Torïaid.

Roedd Margaret erbyn hyn a’i phapur yn wynebu her hollol newydd o ran y cyfryngau newydd, radio a theledu. Yn wyrthiol bron, goroesodd y papur tan ychydig ar ôl ei marw. Ond nid heb gost. Gwariwyd gweddill ei chyfoeth ar gadw’r papur yn fyw. Ond teyrnged i’w gallu a’i gwynwch oedd y ffaith i’r papur gael ei gynhyrchu o hyd ar adeg ei marw ym 1958.

Roedd *Time and Tide* wedi elwa’n fawr ar y sgiliau a fagodd Margaret Haig Thomas, wedyn Mrs a chwedyn y Fonesig Mackworth ac yn olaf Arglwyddes y Rhondda, dros nifer o flynyddoedd: crafter busnes, y gallu i drafod pwyllgor, cyfeillion triw a chysylltiadau eang, medr newyddiadurol i ddeall y darlennydd ac, yn fwy na dim, y penderfyniad a’r dyfalbarhad i fynegi ei chred mewn hawliau cyfartal.